Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Cae-maen**

**Cartref Gofal Cae-maen**
**Teras Coleshill**
**Llanelli**
**SA15 3DE**

**This report is also available in English**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

14/03/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Preswyl Cae-maen

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br><br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 13/12/2017 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae pobl yn derbyn gwasanaeth gan reolwr a thîm o staff ymroddgar. Mae gan yr unigolyn cyfrifol oruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth drwy ei ymweliadau Rheoliad 73 ac offerynnau archwilio ansawdd.

Mae iechyd a llesiant unigol pobl yn bwysig i'r rhai sy'n darparu'r gofal a chymorth. Ategir hyn gan y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae cofnodion gofal yn darparu gwybodaeth dda am yr unigolyn ond mae angen i rai cofnodion fod yn gliriach. Mae gweithwyr gofal wedi'u hyfforddi'n dda ac yn wybodus am y bobl sy'n byw yn y cartref.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol ond yn hen ffasiwn mewn mannau. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal a chadw'n dda, mae'n lân, ac nid oes unrhyw arogleuon drwg. Mae mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith yn unol â chanllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Llesiant

Cydnabyddir dewisiadau a barn pobl. Mae pobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau un i un a grŵp o'u dewis. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ceisio safbwyntiau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref yn ystod ymweliadau Rheoliad 73. Gall pobl bersonoli eu hystafelloedd gwely ag eitemau sydd yn bwysig iddynt fel dodrefn, addurniadau, ffotograffau a gwaith celf. Cynigir dewisiadau o brydau bwyd a lluniaeth i bobl ac maent yn cymryd rhan gymaint â phosibl yn eu gofal.

Mae’r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn siarad yn garedig am yr unigolion sy'n byw yn y cartref ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a sut i ddiwallu’r anghenion hyn. Caiff pobl eu cynorthwyo gan staff sy'n ofalgar ac yn feddylgar. Mae cofnodion gofal yn darparu gwybodaeth am anghenion a hoffterau'r bobl ac yn darparu synnwyr da o'r unigolyn ond mae'n rhaid cofnodi diweddariadau'n briodol. Mae mesurau recriwtio yn sicrhau bod gan y staff sy'n gweithio yn y cartref y sgiliau cywir a'r dull cywir o roi gofal. Mae'r gwasanaeth yn cysylltu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i sicrhau bod pobl yn cadw mor iach â phosib. Mae staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau yn glir ynglŷn ag amddiffyn pobl ac mae hwn yn cael ei gefnogi gan bolisïau sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae angen mynd i'r afael â rhai deinameg staff ac arferion gofal i atal gofal seiliedig ar dasgau rhag cael ei ddarparu.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith ac mae staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau yn glir. Mae'r cartref yn lân ac nid oes unrhyw arogleuon drwg. Mae'r cartref mewn cyflwr da er ei fod yn hen ffasiwn mewn rhai mannau.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y staff ymroddedig ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r staff gofal yn gallu rhoi manylion da am hanes pobl a'u hanghenion gofal penodol. Mae rhyngweithiadau yn gadarnhaol ac yn ofalgar; mae'r staff yn siarad yn frwdfrydig am gynorthwyo unigolion a gweithio yn y cartref. Dywedasant wrthym: *"Mae'r preswylwyr yn wych, nhw yw'r rheswm dwi'n dod i'r gwaith, dwi'n dwlu arno!"* ac *"Mae hi'n bleser dod i'r gwaith  er mwyn gallu helpu'r preswylwyr."*

Mae pobl yn dweud wrthym eu bod yn hapus gyda'r gofal maent yn ei dderbyn ac yn canmol y staff gofal. Dywedasant wrthym: *"Mae'n lle hyfryd, mae'r staff yn wych"* a *"Dwi'n hapus iawn yma, mae'n teimlo fel lle diogel i fyw ynddo, mae'r staff yn rhagorol."*Gwnaeth yr holl bobl y gwnaethom siarad â hwy ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yng nghartref Cae-maen. Mae cyfran dda o'r staff yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg, a gwelsom hynny yn ystod yr arolygiad. Mae gan gynlluniau gofal a chymorth fanylion da ac maent yn rhoi synnwyr da o'r unigolyn. Fodd bynnag, byddai'r cynlluniau yn elwa pe baent yn cynnwys y wybodaeth fwyaf diweddar am yr unigolyn. Mae pobl a/neu eu cynrychiolwyr yn llofnodi eu cynlluniau gofal i ddangos eu bod yn ymwneud â'u gofal. Mae gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwneud â phobl ac mae hyn wedi cael ei nodi'n dda yn eu cofnodion gofal.

Mae lefelau digonol o staff ar waith i ddiwallu anghenion gofal y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r gweithwyr gofal yn ymateb i ymholiadau pobl mewn da bryd, ac mae'r rhyngweithio yn gyfeillgar, yn barchus ac yn hamddenol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yna gamsyniad gan rai staff bod rhaid i'r bobl godi a bod yn barod i frecwast erbyn amser penodol. Gallai hyn, yn ogystal â rhai arferion yn ystod y nos, er nad ydynt yn rheolaidd, arwain at ddarparu gofal seiliedig ar dasgau. Trafodwyd hyn gyda'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr yn ystod yr arolygiad. Mae mesurau priodol ar waith ar gyfer storio, rhoi a chofnodi meddyginiaeth yn ddiogel.

Mae pobl yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp ac unigol rheolaidd; fodd bynnag, mae'r rhain wedi cael eu cyfyngu yn ystod cyfnodau gwaethaf y pandemig. Gwelsom ni rai pobl yn chwarae gemau bwrdd, yn darllen ac yn gwau. Mae cynlluniau ar waith i gynyddu'r nifer o weithgareddau allanol ac ymweliadau gan ddiddanwyr i bobl eu mwynhau dros y misoedd i ddod.

Mae gan y gegin sgôr hylendid bwyd o bum seren gyda bwydlenni amrywiol yn cynnwys dewisiadau dyddiol. Caiff bwydlenni eu diweddaru yn ôl y tymor ac mewn ymgynghoriad â phobl.  Yn ôl pob golwg, mae adegau bwyd yn ddigwyddiadau cymdeithasol cadarnhaol a phleserus iawn. Mae prydau yn cael eu cyflwyno'n dda, maent yn boeth, ac mae dewisiadau ar gael yn rhwydd. Dywedodd dau unigolyn wrthym:*"Rydw i'n gallu dewis y bwyd dwi ei eisiau – mae gwastad yna opsiynau"* ac *"Mae'n neis iawn yma, mae'r gofalwyr yn hyfryd, mae'r bwyd yn neis hefyd."*

Mae'r cartref yn hyrwyddo arferion hylendid i leihau'r risg a berir gan heintiau. Mae'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol ac yn dilyn canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus

Cymru. Mae'r rheolwr yn gweithio gydag Iechyd yr Amgylchedd a'r Bwrdd Iechyd Lleol i sicrhau bod y cartref yn bodloni ei rwymedigaethau ynglŷn â mesurau atal a rheoli heintiau.

## Yr Amgylchedd

Mae trefniadau ar waith i leihau'r risgiau i iechyd a diogelwch pobl. Mae gwaith profi a gwasanaethu cyfarpar diffodd tân a symud a thrin yn cael ei wneud o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng yn unigol ac ar gael yn rhwydd. Mae'r larymau tân o fewn cyrraedd ac mae pobl yn ymateb iddynt o fewn amser priodol pan fyddant yn canu.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith, ac mae gorsafoedd glanweithdra a chyfarpar diogelu personol wedi'u lleoli ledled y cartref. Mae dulliau profi COVID-19 ar waith i bob ymwelydd sydd yn dod i gwrdd â'i berthynas yn y cartref. Mae mesurau priodol a diogel ar waith i hwyluso perthnasau a ffrindiau i ymweld. Mae hyn yn cael ei adolygu'n barhaus. Mae sylweddau sydd yn beryglus i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel ac mae ardaloedd cymunol yn glir a heb beryglon. Mae gan staff domestig yr offer priodol i gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel. Mae trefniadau ar waith i olchi a sychu dillad pobl. Mae gwiriadau gwaith cynnal a chadw, gwaith gwasanaethu ac archwiliadau trwyadl ar waith. Mae'r amgylchedd yn lân a heb unrhyw arogleuon drwg.

Mae cynllun y cartref yn galluogi pobl i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn ddiogel. Ar y cyfan, mae'r amgylchedd yn cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r addurn mewn rhai mannau yn hen ffasiwn a gallai gael ei adnewyddu. Cafodd un lolfa fach ei hailaddurno, ac ynghyd â'r dodrefn newydd, mae'n cynnig lle atyniadol i gwrdd ynddo. Dywedodd un unigolyn wrthym: *"Dwi'n hoffi'r lolfa hon, mae'n teimlo'n loyw a chroesawgar."* Mae yna ardaloedd cymunol ac ardaloedd tawelach i bobl gyfarfod, yn dibynnu ar yr hyn a ffafrir ganddynt. Mae ystafelloedd gwely pobl wedi cael eu personoli ag eitemau o ddodrefn, addurniadau, ffotograffau a gwaith celf. Mae'r gerddi sydd wedi'u cynnal a chadw'n dda yn cynnig lleoedd i bobl eistedd, cymdeithasu a mwynhau yn ystod tywydd braf.

.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae'r unigolyn cyfrifol mewn cyswllt rheolaidd â'r gwasanaeth ac mae wedi ymgymryd ag ymweliadau Rheoliad 73 cyson yn ystod y pandemig. Mae AGC wedi derbyn copïau o'i hadroddiadau, sydd yn dangos ei bod hi'n siarad â phobl a staff fel rhan o'r ymweliadau â'r cartref. Gwnaeth staff a phobl sy'n byw yno gadarnhau hyn gyda ni. Dywedodd un: *"Dwi wedi cyfarfod â hi, mae hi wastad yn dweud helô ac yn dal i fyny gyda ni."* Mae yno ystod o offer monitro a chynhelir ystod o archwiliadau. Mae'r camau sydd eu hangen yn sgil yr archwiliadau hyn yn cael eu gweithredu a'u hadolygu yn rheolaidd.

Mae'r staff yn wybodus, ac yn gymwys i ofalu am y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r staff yn mynychu ystod o hyfforddiant gorfodol a phenodol i'r gwasanaeth ac mae'r cofnodion yn cadarnhau hyn. Dywedodd staff gofal wrthym am yr hyfforddiant y maent yn ei fynychu ac maent yn dangos dealltwriaeth dda o'u rôl wrth amddiffyn unigolion ac o weithdrefnau symud a thrin. Mae'r cofnodion staff yn dangos eu bod nhw'n derbyn cyfnod sefydlu cynhwysfawr, ac ar y cyfan a'u bod yn cael goruchwyliaeth reolaidd a gwerthusiad blynyddol. Mae'r swm o wybodaeth a geir mewn rhai ffeiliau'r staff yn ei gwneud hi'n anodd llywio trwyddo ac mae angen ei wella.

Ar y cyfan, mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo gan y rheolwr a gofalwyr uwch. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym: *"Mae'r rheolwr yn hyfryd!Wastad yno os oes problem.Rydym yn gweithio'n dda gyda'n gilydd, mae ei drws hi bob amser ar agor", "Mae'r rheolwr wedi bod yn gynorthwyol iawn ac yn gwrando ar argymhellion dwi wedi eu gwneud"* ac *"Mae'n agored iawn yma, mae'r gofalwyr uwch yn ardderchog."* Mae'n anffodus na all patrymau shifftiau bob amser ddiwallu anghenion unigol staff a chanlyniad hyn.
Mae yna rai pryderon ynglŷn â deinameg y tîm rhwng staff profiadol a staff newydd. Dywedodd un aelod o staff wrthym: *"Mae'n waith anodd iawn;mae staff newydd yn ei gwneud hi'n anoddach o achos mae angen sut gymaint o gymorth arnynt."* Rydym wedi siarad â'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol am batrymau shifftiau a deinameg y staff yn rhan o'r arolygiad.

Mae'r staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol, ac maent yn gallu esbonio eu cyfrifoldebau i ni o ran lleihau lledaeniad COVID-19. Mae yna bolisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith sy'n cael eu hadolygu yn rheolaidd i gynorthwyo staff. Mae cofnodion recriwtio'n cynnwys yr holl wybodaeth a gwiriadau angenrheidiol.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 14/04/2022